# DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT – GAEAF 2024

Helo gan dîm Morwellt y Môr Achub Gogledd Cymru. Wrth i ni nesáu at ddiwedd 2024, hoffem rannu ein diweddariad terfynol ar gyfer y flwyddyn a myfyrio ar bopeth sydd wedi'i gyflawni diolch i ymdrech aruthrol ein timau a'n gwirfoddolwyr.

**Uchafbwyntiau 2024**




Mae wedi bod yn ddiddorol iawn treialu rhai methodolegau plannu morwellt newydd eleni gan gynnwys defnyddio sled sydd ynghlwm wrth gwch i chwistrellu hadau i'r gwaddod a phlannu trawsblaniadau morwellt a dyfir yn ein meithrinfa morwellt.

Mae'r gwaith ar Ynys Môn bellach ar waith gyda sesiynau galw heibio lluosog wedi'u cynnal a phlannu ar draws dau leoliad prawf ger Caergybi wedi'i gwblhau ym mis Ebrill.

Yn olaf, ni fyddai crynodeb o uchafbwyntiau yn gyflawn heb sôn am yr ymdrech casglu hadau yn ystod yr haf - gyda dros 100 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan casglwyd 1.2 miliwn o hadau!

**Ymgysylltu Cymunedol**

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal dwy sesiwn galw heibio yn canolbwyntio ar adfer morwellt ym mae Caergybi. Roedd un o'r sesiynau ar-lein ac un arall yn noson yng Nghlwb Hwylio Caergybi. Mae'r sesiynau galw heibio yn anffurfiol iawn ac maen nhw'n gyfle i'r rhai sy'n galw heibio i gael diweddariadau ar sut mae pethau'n mynd gyda'r treialon plannu, gofyn cwestiynau, a sgwrsio am ffyrdd o gymryd rhan neu ddysgu mwy am y prosiect.





Cadwch lygad am fwy o sesiynau galw heibio yn ystod 2025.

Yn ystod mis Tachwedd buom yn cymryd rhan yn nigwyddiad Môr a Thonnau ym Mhwllheli a drefnwyd gan Brosiect Siarc. Roedd yn benwythnos gwych yn dathlu bywyd gwyllt arfordirol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal trwy sgyrsiau, teithiau natur, helfeydd cas wyau, gweithgareddau celf a mwy. Fe wnaethom ymuno â llu o sefydliadau eraill gan gynnwys Ffrindiau Pwllheli a Gwyrddni a chael llawer o sgyrsiau difyr gyda phobl Pwllheli yn Neuadd Dwyfor.


## Monitro

Yn dilyn treialon plannu hadau a thrawsblaniadau ar draws ein safleoedd yng ngogledd Cymru yn gynnar yn y gwanwyn, bu'r tîm yn monitro'r lleoliadau plannu yn ystod yr hydref i weld a oedd unrhyw forwellt wedi cydio.



Yn galonogol, roedd y morwellt yn y ddau safle plannu arbrofol ym Mae Caergybi yn ymddangos yn drwchus ac iach. I'r gwrthwyneb, yn ein dau safle yn Llŷn (Carreg y Defaid a Phenychain) ychydig iawn o'r morwellt o'r plannu arbrofol oedd ar ôl. Roedd hwn yn wahaniaeth diddorol rhwng y safleoedd ac roeddem yn awyddus i ddeall mwy.


Wrth adolygu'r data y tu ôl i'r ysgogwyr posibl o golli morwellt ar safleoedd Llŷn, daeth yn amlwg bod yna achos metrolegol.



Byddai digwyddiad tywydd poeth cyflym ar ddechrau mis Mai, wedi'w ddilyn gyda glaw trwm yn arwain at halltedd is wedi rhoi straen mawr ar y morwellt, a byddai stormydd cryf a pharhaus o'r gorllewin i'r de-orllewin dros yr haf wedyn wedi sgwrio unrhyw blanhigion oedd yn weddill.

Mae'n debygol iawn bod digwyddiadau tywydd eithafol fel y rhain yn gysylltiedig â newid hinsawdd ac nad oeddent yn rhywbeth y gallem fod wedi'i ragweld yn ein modelau gwreiddiol wrth ddewis safleoedd adfer addas.

Mae bae Caergybi yn fwy cysgodol, ac ychydig yn oerach na safleoedd Llŷn sy'n debygol o gyfrif am y gwahanol ganlyniadau a ddarganfuwyd yn ystod y monitro. Bydd yr hyn a ddysgwyd eleni yn rhoi cipolwg hollbwysig wrth gynllunio dewis safleoedd a dulliau plannu ar gyfer gwaith adfer yn y dyfodol.




**<u>Canlyniadau Monitro Ynys Môn</u>**

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i bawb sydd wedi parhau i gefnogi'r ymdrechion hyn tuag at warchod ac adfer dolydd morwellt ar draws gogledd Cymru. Edrychwn ymlaen at barhau â'r prosiect cydweithredol hwn gyda chi yn 2025.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r prosiect cydweithredol hwn gyda chi yn 2025.

**Pecyn Addysg**

Mae'r gwaith o ddatblygu'r adrannau newydd o Becyn Addysg Pen Llŷn a'r Sarnau ar y gweill a gobeithiwn y bydd holl ysgolion cynradd Gwynedd ac Ynys Môn yn cael mynediad i'r pecyn yn gynnar yn 2025 fel copi ffisegol yn y dosbarth ac ar-lein. Trwy brosiect Morwellt Achub Cefnfor, rydym wedi darparu sesiynau thema morwellt ar gyfer sawl ysgol.

Mae'r rhain yn ffyrdd ardderchog o ymgysylltu plant lleol â bywyd gwyllt arfordirol a phwysigrwydd dolydd morwellt yr ydym yn bwriadu parhau gyda'r sesiynauyn 2025. Bydd adrannau newydd y pecyn addysg yn cynnwys elfen morwellt bwrpasol a fydd yn helpu athrawon i feithrin eu hyder wrth drafod morwellt gyda eu dosbarth a darparu syniadau am weithgareddau.



**Rydyn ni'n Dŵr**

Mae Lily Tiger yn artist dawnus sy'n edrych i mewn i'n perthynas â'r dŵr o'n cwmpas, ei le yn ein cymunedau a'i weithrediad ecolegol trwy brosiect artistig o'r enw 'We Are Water', rhan o brosiect Natur am Byth.

Mae'r gweithdai hyd yma wedi cynnwys defnyddio clai lleol o Ben Llŷn i greu llestrau, a fydd yn cael eu dychwelyd i'r môr mewn pererindod a gosodiad terfynol yn ystod y misoedd nesaf. Mae hi wedi bod yn recordio sgyrsiau gydag amrywiaeth o wahanol bobl leol; ymchwilwyr, perchnogion busnes, gweithwyr tir, grwpiau cymunedol, ysgolion ac ymchwilio i sut y gallwn ysbrydoli ymdeimlad dyfnach o barch at ein cefnforoedd a'n dyfrffyrdd.



Mae Lily yn cyfrannu at y prosiect ansawdd dŵr ac yn gobeithio creu darn cerfluniol trawiadol gan ddefnyddio'r pecyn profi a lliwiau'r samplau sydd wedi'u profi. Gan ddefnyddio lliw'r samplau a brofwyd mae hi hefyd yn gobeithio cynhyrchu map ansawdd dŵr o Gymru! Mae ei gwaith hyd yn hyn wedi bod yn gyffrous a diddorol; ni allwn aros i weld sut y bydd pethau'n parhau i esblygu wrth symud ymlaen i'r flwyddyn newydd.

**Diweddariad ar y Pencampwyr Cefnfor/NWWT**

Mae Pencampwyr Morwellt Achub Cefnfor eleni wedi bod ar eu hanterth ers mis Ebrill gyda sesiynau'n cynnwys adeiladu tîm, archwilio'r arfordir a ffotograffiaeth tanddwr. Cynhaliwyd y casgliad blynyddol o forwellt yn yr haf a threfnwyd amserlen lawn ar gyfer y grŵp gan gynnwys casglu hadau, snorclo, gwylio bywyd gwyllt a fideograffi tanddwr. Tra bu'r penwythnos yn wyntog roedd yn sych ar y cyfan. Roedd sesiynau eraill yn cynnwys helfa darnau plastig bach a chasglu darnau o forwellt oedd wedi golchi fyny yn ystod diwrnod stormus ar ôl i sesiwn snorcelu gael ei gohirio.





Galluogodd y sesiwn hon y grŵp i gasglu darnau a olchwyd ac ailblannu ar drai (yn yr un bae). Yn dilyn y sesiwn hon caniatawyd i'r grŵp orffen yr ysgol yn gynnar a helpu gyda monitro morwellt ym Mhenychain. Mae arweinwyr sesiynau gwadd wedi cynnwys Jake Davies (ffotograffiaeth) a'r awdur Nicola Davies a gynhaliodd sesiwn am ysgrifennu natur.

Mae'r grŵp wedi bwrw ymlaen â'u gwaith adfer trwy ymgymryd â chasglu hadau, casglu darnau a phlannu a monitro. Bu'r Pencampwyr hefyd yn rhannu eu gwybodaeth am forwellt a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda stondin yng Ngŵyl Ffilm y Môr eleni yn Venue Cymru ac roeddem yn hynod falch o un o'n Mentoriaid MAC Ifanc yn ennill Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol NWWT.





**Cysylltu**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

- ACA Pen Llŷn a'r Sarnau: Alison Palmer Hargrave (alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru: Nia Jones (nia.jones@northwaleswildlifetrust.org.uk)
- Prosiect Morwellt: Flo Taylor (flo@projectseagrass.org)

Mae gennym hefyd restr bostio prosiect erbyn hyn – os hoffech ymuno am ddiweddariadau, cysylltwch ag Alison Palmer Hargrave ar alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru.

**Diolch i Stena Line am gefnogi a galluogi plannu yng Caergybi.**

Gwnaed y prosiect yn bosibl diolch i
Project made possible thanks to

Prosiect a ddarperir gan
Project delivered by